# Benthyca

## Yma i helpu pan fydd ei angen arnoch





NatWest

Helpful Banking

# Croeso i NatWest

## Ydych chi'n ystyried benthyca arian?

Bydd y llyfryn hwn yn eich arwain trwy ystod o fenthyciadau, gorddrafftiau trefnedig a chardiau credyd sydd ar gael i chi oddi wrth NatWest. Y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd i'ch cangen agosaf, neu fynd ar lein ar natwest.com/borrowing, neu ein ffonio ni i gael mwy o wybodaeth.

# Dewis helaeth o opsiynau benthyca

## Benthyciadau

Mae yna ystod o fenthyciadau ar gael gan NatWest, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau personol, y maint mae ei angen arnoch, neu a yw'n well gennych ad-daliadau sefydlog neu ad-daliadau hyblyg


> Benthyciad Personol tudalen 6

> Benthyciad Hyblyg (FlexiLoan) tudalen 7

> Benthyciad Graddedigion tudalen 8

> Cynllun Benthyciadau Hyfforddeion Proffesiynol tudalen 9

> Benthyciad Pontio tudalen 10


## Gorddrafftiau

Mae gorddrafftiau trefnedig NatWest yn cynnig ffordd hyblyg o fenthyca arian yn y tymor byr, ac os mai myfyriwr neu rywun sydd wedi graddio'n ddiweddar ydych chi, ac rydych yn aros y tu mewn i'ch terfyn trefnedig, nid oes yn rhaid talu unrhyw log, chwaith


> Gorddrafft Credit Zone tudalen 11

> Gorddrafft Credit Zone i Raddedigion tudalen 12

> Gorddrafft Myfyrwyr tudalen 13

# Dewis y math o fenthyca sy'n addas i chi

## Os ydych chi'n gweithio'n amser llawn neu'n rhan amser…

| Pa fath o fenthyciad ydych chi ei eisiau? | Yna byddwch chi eisiau ystyried… | Faint ydych chi eisiau ei fenthyca? | Nodweddion allweddol | Cewch wybod mwy ar dudalen… |
|---|---|---|---|---|
| Tymor Byr | Gorddrafft Credit Zone* | Hyd at £15,000 | • Ad-daliadau hyblyg<br>• Benthyciad trefnedig di-log hyd at £100 | 11 |
| | Benthyciad Pontio | Diderfyn | • Opsiwn i brynu tŷ pan nad ydych wedi gorffen gwerthu'ch cartref presennol | 10 |
| Tymor Canolig | Benthyciad Personol | £1,000 – £25,000 | • Ad-daliadau sefydlog dros gyfnod cytunedig | 6 |
| | Benthyciad Hyblyg | £5,000 a mwy | • Opsiynau ad-dalu hyblyg<br>• Opsiwn i ad-dalu cyfandaliadau neu ad-dalu'r cyfan yn gynnar<br>• Opsiynau llog yn unig ar gael | 7 |

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

Os hoffech fenthyca mwy na'r symiau a ddangosir uchod, cysylltwch â ni.

# Os ydych chi mewn addysg amser llawn neu newydd orffen astudio…

| **Ydych chi'n…** | Yna byddwch chi eisiau ystyried… | Faint ydych chi eisiau ei fenthyca? | Nodweddion allweddol | Cewch wybod mwy ar dudalen… |
|---|---|---|---|---|
| Astudio mewn prifysgol neu goleg | Gorddrafft Myfyrwyr* | Hyd at £2,000 | • Di-log<br>• Dim ffioedd trefnu | 13 |
| Astudio ar gyfer cymhwyster proffesiynol dethol | Cynllun Benthyciadau Hyfforddeion Proffesiynol | Hyd at £20,000 | • Cyfraddau wedi'u teilwra | 9 |
| Newydd orffen astudio | Benthyciad Graddedigion | Hyd at £15,000 | • Cyfraddau wedi'u teilwra<br>• Ad-daliadau sefydlog | 8 |
| | Gorddrafft Credit Zone i Raddedigion* | Hyd at £2,000 | • Di-log<br>• Ar gael hyd at dair blynedd ar ôl graddio** | 12 |

*Gorddrafft trefnedig yw hwn. Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am orddrafft di-log, rhaid i chi ddefnyddio'ch cyfrif fel eich prif gyfrif cyfredol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cael o leiaf un trafodyn credyd ar eich cyfrif bob tri mis ac o leiaf tri thrafodyn debyd bob mis.
**I fyfyrwyr sy'n graddio yn 2013 bydd y Cyfrif Graddedigion ar gael am ddwy flynedd ar ôl graddio.

nawr cewch ddarllen mwy am yr opsiynau benthyca sy'n addas i chi >

# Benthyciad Personol

## Opsiynau benthyca

- **Cewch fenthyca o £1,000 i £25,000**
- **Cewch ei ad-dalu dros unrhyw gyfnod rhwng blwyddyn a phum mlynedd, neu hyd at saith mlynedd ar gyfer benthyciadau dros £15,000**
- **Gwnewch gais, naill ai drwy fynd i'ch cangen leol a llenwi ffurflen gais syml, neu dros y ffôn ar 0800 243 406 (gall defnyddwyr Minicom ffonio 0800 404 6161)**

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

# Benthyciad Hyblyg (FlexiLoan)

## Chi sy'n dewis sut a phryd yr ydych eisiau ei ad-dalu

Mae Benthyciad Hyblyg gan NatWest (NatWest FlexiLoan) yn rhoi i chi hyblygrwydd gwirioneddol yn y ffordd yr ydych yn ei ad-dalu.

- **Cewch ad-dalu cyfandaliadau neu ad-dalu'r cyfan yn gynnar**
- **Cewch dalu'r llog yn unig am gyfnod y benthyciad ac ad-dalu'r cyfalaf yn llawn ar y diwedd**
- **Cewch ei ad-dalu dros saith mlynedd (neu dros ddeng mlynedd os ydych chi'n benthyca i wella'ch cartref)**

Cewch fenthyca unrhyw swm o £5,000 i fyny

### Ydych chi wedi ystyried…

Agor cyfrif Advantage Private NatWest? Bydd yn rhoi i chi'r gallu i gael cyfraddau bancio wedi'u teilwra. Gofynnwch am fanylion mewn cangen. Ar gael i'r rheiny sydd ag incwm blynyddol unigol o £75,000 o leiaf neu incwm ar y cyd o £100,000 neu gynilion o £50,000 neu drwy wahoddiad. Codir ffi fisol o £19.95.

Os dewiswch gael seibiant rhag ad-dalu'r cyfalaf, bydd llog yn daladwy yn ystod y seibiant. Mae angen cyfrif cyfredol NatWest arnoch er mwyn manteisio ar y benthyciad hwn.

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

**I gael gwybod mwy** natwest.com/borrowing Siaradwch â'ch Rheolwr Perthynas yn y gangen

# Benthyciad Graddedigion

## Symleiddio'ch materion ariannol

Os ydych chi wedi graddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae ein Benthyciad Graddedigion yn caniatáu i chi fenthyca unrhyw swm o £1,000 i £15,000.

- **Cewch ei ad-dalu dros bum mlynedd (neu dros saith mlynedd os ydych chi'n benthyca dros £10,000)**
- **Cewch wneud cais am seibiant o bedwar mis rhag ad-dalu ar ddechrau'r benthyciad, neu 12 mis os ydych chi'n mynd i deithio ac os oes gennych swydd wedi'i chadarnhau i ddychwelyd iddi**
- **Ad-daliadau sefydlog i wneud cyllidebu'n hawdd**
- **Dim ffioedd trefnu na gweinyddu**

Cewch fanteisio ar gyfraddau llog wedi'u teilwra

Bydd y llog yn parhau i gronni yn ystod seibiant rhag Ad-dalu Cyfalaf a Llog.
Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

**9.4% APR**
**Nodweddiadol (newidiol)**
**ar gyfer benthyciadau £5,000 a throsodd**

**I gael gwybod mwy** natwest.com/borrowing 0845 301 2789 Ewch i'ch cangen agosaf

# Cynllun Benthyciadau Hyfforddeion Proffesiynol

## Ariannu'ch datblygiad proffesiynol

Mae Cynllun Benthyciadau Hyfforddeion Proffesiynol NatWest wedi'i gynllunio i'ch helpu gyda chostau'ch cwrs hyfforddi neu'ch costau byw os ydych chi'n bwriadu gwneud astudiaethau pellach mewn proffesiynau cyfreithiol neu feddygol dethol.

- **Cewch fenthyca hyd at £20,000, neu £25,000 os ydych chi'n astudio'n amser llawn ar gyfer Diploma Ôl-radd yn y Gyfraith (GDL), Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) neu Gwrs Hyfforddi Proffesiynol y Bar (BPTC)**
- **Os ydych chi'n astudio'n rhan-amser ar gyfer GDL, LPC neu BPTC, gallwch fenthyca hyd at gost ffioedd eich cwrs**
- **Cewch ddewis cyfraddau llog sefydlog neu newidiol wedi'u teilwra**
- **Cewch dynnu'r benthyciad yn un cyfandaliad neu fesul rhandaliad**

Bydd y llog yn parhau i gronni yn ystod seibiant rhag Ad-dalu Cyfalaf a Llog. Mae'n bosibl y codir ffi am ad-dalu'n gynnar.

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

Dim byd i'w ad-dalu tra'ch bod chi'n astudio

### Ydych chi wedi ystyried…

Adolygiad Personol heb ymrwymiad gyda Rheolwr Graddedigion i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian wrth i chi astudio?

**8.9% APR**
**Nodweddiadol (sefydlog)**

**I gael gwybod mwy**

natwest.com/borrowing

Siaradwch â'ch Rheolwr Graddedigion yn y gangen

# Benthyciad Pontio

## Prynu tŷ pan nad ydych wedi gwerthu'ch cartref presennol eto

Gall Benthyciad Pontio'ch helpu i gael y tŷ yr ydych ei eisiau trwy:

- **Ddarparu arian i brynu cartref cyn cwblhau gwerthu un arall**
- **Ariannu prynu cartref ar frys hyd nes i forgais hirdymor gael ei drefnu**
- **Darparu arian dros dro fel y gallwch brynu cartref mae angen ei drwsio neu ei adnewyddu, hyd nes bod yr atgyweiriadau wedi cael eu cwblhau**
- **Mae'n bosibl y codir ffioedd trefnu**

Pontio'r bwlch ariannol pan ydych chi ar frys

### Ydych chi wedi ystyried…

Morgais NatWest? Gallwch ddewis o blith ystod o forgeisi. Rydym wedi cael ein dewis fel y 'Banc Gorau am Forgeisi' gan y cylchgrawn *'Your Mortgage'*.

MAE'N BOSIBL Y CAIFF EICH CARTREF EI ADFEDDIANNU OS NAD YDYCH CHI'N PARHAU I DALU'R AD-DALIADAU AR EICH MORGAIS

**I gael gwybod mwy** natwest.com/borrowing 0800 015 1166 Siarad â'ch Rheolwr Graddedigion yn y gangen

# Gorddrafft Credit Zone

Mae gorddrafft trefnedig NatWest yn rhoi i chi'r hyblygrwydd i ordynnu arian, hyd at derfyn trefnedig. Ar ôl i chi drefnu'ch cyfleuster gyda ni, gallwch ei ddefnyddio ar unrhyw adeg heb orfod cysylltu â'ch cangen yn gyntaf.

- **Dim ond ar yr hyn yr ydych chi'n ei fenthyca (pan mae o fewn eich terfyn trefnedig) y byddwch chi'n talu llog misol**
- **Ar gael i unrhyw un dros 18 oed sydd â chyfrif Current, Current Plus, Advantage Gold neu Advantage Private NatWest**
- **Rhaid talu ffioedd trefnu ar gyfleusterau dros £7,500 (neu £15,000 a mwy ar gyfer Advantage Private)**
- **Cewch fenthyca hyd at £100 yn ddi-log (£250 ar gyfer Advantage Private)**

## Ydych chi wedi ystyried…

Agor cyfrif Advantage Gold NatWest? Gall roi i chi gyfraddau wedi'u teilwra ar eich Benthyciad Personol. Cysylltwch â'ch cangen neu ffoniwch 0800 243 406. Nid yw cyfraddau wedi'u teilwra ar gael ar lein.

Mae Advantage Private ar gael i'r rheiny sydd ag incwm blynyddol unigol o £75,000 o leiaf neu incwm ar y cyd o £100,000 neu gynilion o £50,000 neu drwy wahoddiad. Codir tanysgrifiad misol o £19.95. Gydag

Advantage Gold codir tanysgrifiad misol o £12.95.

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

# Gorddrafft Graddedigion

## Arian di-log i fod yn gymorth i chi dros dro

Os oes gennych Gyfrif Graddedigion NatWest, mae'n bosibl y bydd gennych chi hawl i orddrafft trefnedig di-log am hyd at dair blynedd ar ôl i chi raddio.

- **Y terfynau trefnedig yw hyd at £2,000 yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i chi raddio; hyd at £1,000 yn yr ail flwyddyn; a hyd at £500 yn y drydedd flwyddyn**
- **Nid oes yn rhaid talu llog na thaliadau ar wahân cyn belled â'ch bod yn cadw o fewn y terfynau trefnedig**
- **Gallwch ddiogelu'ch ad-daliadau rhag pethau annisgwyl gyda Credit Zone Protector Plus**
- **Os ydych yn graddio o 1 Ionawr 2013 ymlaen, y terfynau trefnedig yw hyd at £2,000 yn y flwyddyn gyntaf a hyd at £1,000 yn yr ail flwyddyn**

### Ydych chi wedi ystyried…

Cynllun Ad-dalu Gorddrafft Graddedigion? Gallwch ail-gyllido'r swm a fenthycwyd trwy'ch gorddrafft trefnedig, yn ddi-log.

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

# Gorddrafft Myfyrwyr

## Pan ydych chi ar gyllideb dynn

Gyda chyfrif Myfyrwyr NatWest gallech fanteisio ar gyfraddau wedi'u teilwra ar orddrafftiau trefnedig. O 2010 ymlaen bydd y trothwyau canlynol yn berthnasol i bob cwsmer Cyfrif Myfyrwyr sy'n dechrau ar ei flwyddyn gyntaf yn y brifysgol:

| Blwyddyn 1 |
|---|
| Tymor 1 £500 |
| Tymor 2 £750 |
| Tymor 3 £1,000 |

| Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|
| £1,250 | £1,500 | £1,750 | £2,000 |

Bydd y trothwyau canlynol yn berthnasol i bob cwsmer Cyfrif Myfyrwyr sy'n dechrau ar ei ail, trydedd, pedwaredd neu bumed flwyddyn yn y brifysgol:

| Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|
| £1,400 | £1,600 | £1,800 | £2,000 |

- **Dim ffioedd trefnu**
- **Dim taliadau ar wahân, cyn belled â'ch bod yn cadw o fewn terfynau'r gorddrafft trefnedig**
- **Cewch godi neu ostwng eich terfyn os ydyn ni'n cytuno**
- **Mae'n rhaid mai'r cyfrif Myfyrwyr yw'ch prif gyfrif, gyda symiau'n cael eu talu iddo'n rheolaidd. Er mwyn bod yn gymwys i gael gorddrafft di-log, rhaid i chi wneud o leiaf un trafodyn credyd bob tri mis ac o leiaf tri thrafodyn debyd bob mis**

### Ydych chi wedi ystyried…

Siarad â'n Cynghorwyr Myfyrwyr? Maen nhw wrth law i roi cymorth a chyngor parhaol drwy gydol eich gyrfa yn y brifysgol.

Gweler y wybodaeth bwysig ar dudalen 16.

# Beth mae angen i chi ei wneud nesaf

## 1 Penderfynu pa fath o fenthyciad mae ei angen arnoch

Benthyciad, Gorddrafft Trefnedig

## 2 Cysylltu â ni heddiw

**natwest.com/borrowing**

**Gweler y dudalen gefn i gael gwybodaeth am rifau ffôn**

**Mynd i'ch cangen NatWest agosaf a siarad â chynghorydd**

## 3 Yr hyn fydd ei angen arnoch

Dylech fod dros 18 oed a bod â:

- **hanes credyd da**
- **cyfeiriad parhaol yn y Deyrnas Unedig**
- **cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu**

# Mae mwy i NatWest…

## Gallwn hefyd eich helpu gyda


















# Gwybodaeth bwysig

Cyfleusterau credyd: Pobl dros 18 oed yn unig. Mae'n bosibl y caiff galwadau eu recordio. Mae'r manylion yn gywir ar adeg argraffu hwn.

Mae telerau ac amodau'n berthnasol – darllenwch **Personal and Private Banking – Terms and Conditions** a **Personal and Private Banking – A Guide to Fees and Interest.**

**Benthyciad Personol**
Pobl dros 18 oed yn unig a thros 22 oed i bobl nad ydynt yn gwsmeriaid NatWest. Cewch fenthyca rhwng £1,000 a £25,000: Lleiafswm o £2,000 i bobl nad ydynt yn gwsmeriaid NatWest. Arian yn eich cyfrif heddiw: i bobl sy'n gwsmeriaid NatWest eisoes sy'n gwneud cais o ddydd Llun i ddydd Gwener ac sy'n bodloni ein holl ofynion credyd ar sail eu hamgylchiadau ariannol unigol ac y mae eu cais am fenthyciad yn cael ei dderbyn. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd angen i ni gyfeirio penderfyniad; os felly, mae'n bosibl y bydd yn cymryd yn hirach i ddarparu'r arian. Lledu'ch ad-daliadau: Ar gyfer benthyciadau o lai na £15,000 pum mlynedd yw'r cyfnod hiraf – ac eithrio benthyciadau i wella'r cartref, y gellir eu had-dalu dros 10 mlynedd ar y mwyaf.

**Benthyciad Hyblyg (FlexiLoan)**
Mae'r opsiynau'n amodol ar gadarnhad oddi wrth eich cangen. Mae'n bosibl y bydd angen gwarant. Mae'n bosibl y codir Ffioedd Trefnu. Ni allwch ohirio na lleihau'r taliadau ar ôl cytuno ar y telerau cychwynnol a chymryd y benthyciad.

**Cynllun Benthyciadau Hyfforddeion Proffesiynol**
I wneud cais am fenthyciad fel myfyriwr israddedig rhaid i chi fod yn eich ail flwyddyn o leiaf o astudio'n amser llawn ar gwrs cymwys (i gael manylion cyrsiau cymwys siaradwch â'ch Rheolwr Graddedigion). Mae angen i fyfyrwyr sy'n astudio i fod yn Fargyfreithwyr neu'n Gyfreithwyr fod wedi graddio ac yn dilyn Diploma Ôl-radd yn y Gyfraith, Cwrs Ymarfer Cyfreithiol neu Gwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar. Mae hyd y seibiant rhag ad-dalu ar ôl gorffen astudio yn dibynnu ar y cwrs yr ydych wedi'i ddilyn a'ch amgylchiadau penodol chi. Rhaid i holl gyfnod y benthyciad, o ddyddiad tynnu'r swm cyntaf, beidio â bod yn fwy na 10 mlynedd. Nid oes angen i chi fancio gyda ni i wneud cais, ond er mwyn cael y benthyciad bydd angen i chi agor a chadw'ch prif berthynas fancio gyda ni.

**Gorddrafftiau**
Rhaid i chi ad-dalu unrhyw orddrafftiau os gofynnwn i chi wneud hynny. Gall cyfraddau gorddrafftiau a llog newid. Mae'n bosibl y bydd angen i chi roi gwarant a threfnu yswiriant ar gyfer benthyciadau a gorddrafftiau trefnedig. Pan fydd gennych orddrafft o fwy na £100 o fewn eich terfyn trefnedig, bydd llog ar y swm llawn a fenthycir yn cael ei godi arnoch chi. Mae angen bod gorddrafft trefnedig o £100 o leiaf (£250 o leiaf ar gyfer Advantage Private) wedi'i drefnu er mwyn manteisio ar y budd di-log.

# Mae'n hawdd gwneud cais

## natwest.com/borrowing

**Benthyciad Personol a Gorddrafftiau**

**0800 243 406**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener,
9am–6pm dydd Sadwrn.
**Minicom 0800 404 6161**

**Benthyciad Graddedigion**

**0845 301 2789**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener,
9am–6pm dydd Sadwrn.
**Minicom 0800 917 0526**

**Benthyciad Pontio**

**0845 3050 800**

8am–10pm dydd Llun i ddydd Gwener,
10am–6pm dydd Sadwrn a dydd Sul.
**Minicom 0845 900 5961**

## Ewch i'ch cangen NatWest agosaf

Wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
National Westminster Bank Plc, 135 Bishopsgate, Llundain EC2M 3UR. Rhif Cofrestredig: 929027, Lloegr.
NWB4435 30 Medi 2010